Adeiladu timau a dyrannu gwaith i aelodau'r tîm

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag adeiladu timau a dyrannu gwaith i aelodau'r tîm, gan gynnwys sefydlu timau ar gyfer prosiect penodol a thimau parhaus. Rydych chi'n nodi diben timau a'u harbenigedd, eu sgiliau a'r agweddau sy'n ofynnol i'w cyflawni. Rydych yn gwneud yn siŵr bod y gwaith sy'n ofynnol gan eich timau yn cael ei ddyrannu ymhlith aelodau'r tîm, gan ystyried eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u cymhwysedd, eu llwyth gwaith a'u cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol. Rydych chi'n annog eich timau i gydweithredu a meithrin parch at y cryfderau a'r arbenigedd a gynigir gan bob gweithiwr. Rydych yn annog ffyrdd creadigol o ddatrys problemau ac adborth i wella perfformiad timau ac unigolion. Rydych hefyd yn dathlu llwyddiannau unigolion a thimau ac yn ailffocysu egni pan mae pethau'n mynd o chwith.

Mae'r safon hon ar gyfer pob rheolwr ac arweinydd.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. nodi diben timau a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei gyflawni
2. diffinio'r arbenigedd, y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sy'n ofynnol i gyflawni diben tîm
3. nodi gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau aelodau'r tîm i bennu eu rolau o fewn y timau
4. cynllunio a datblygu unrhyw wybodaeth, sgiliau a chymwyseddau sy'n brin mewn timau
5. datblygu a gweithredu cynlluniau trosglwyddo olyniaeth a gwybodaeth a sgiliau, lle bo angen
6. cadarnhau'r gwaith sy'n ofynnol gan dimau gyda'ch rheolwr a gofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau a materion sydd ar ôl
7. cynllunio sut bydd timau'n ymgymryd â'r gwaith, gan nodi unrhyw flaenoriaethau neu weithgareddau hanfodol a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol
8. dyrannu gwaith i aelodau'r tîm trwy ystyried eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu cymhwysedd, eu cefndiroedd a'u profiad
9. dadansoddi llwythi gwaith presennol aelodau'r tîm, a chyfleoedd i'w datblygu
10. briffio aelodau'r tîm ar y gwaith a ddyrannwyd iddynt a safon y perfformiad a ddisgwylir
11. annog aelodau'r tîm i ofyn cwestiynau, gwneud awgrymiadau a gofyn am eglurhad ynghylch y gwaith a ddyrannwyd iddynt
12. ymateb i unrhyw bryderon sydd gan aelodau'r tîm am eu gwaith
13. rhoi enghreifftiau o ymddygiadau sy'n dangos parch, cymwynasgarwch a chydweithrediad ac sy'n ysbrydoli aelodau'r tîm i ymddwyn yn yr un modd
14. cytuno ar yr ymddygiadau fydd yn helpu i gyflawni diben y tîm a'r rhai sy'n debygol o rwystro cynnydd gydag aelodau'r tîm
15. cefnogi aelodau'r tîm i ddeall eu cyfraniad unigryw mewn timau, cyfraniadau cyd-aelodau'r tîm, a sut mae'r rhain yn ategu ei gilydd
16. rhoi cyfleoedd i aelodau'r tîm ddod i adnabod cryfderau a gwendidau ei gilydd a meithrin parch ac ymddiriedaeth ar y cyd
17. caniatáu amser i dimau ddatblygu trwy eu camau twf
18. cefnogi'r tîm i fachu ar gyfleoedd a ddaw yn sgîl newidiadau i aelodau'r tîm a chyflwyno aelodau newydd
19. annog aelodau'r tîm i rannu problemau â'i gilydd a datrys y rhain yn greadigol gyda'i gilydd

20. annog cyfathrebu agored rhwng aelodau'r tîm, gan gynnwys rhoi adborth adeiladol i wella perfformiad aelodau unigol a'r tîm cyfan
21. monitro perfformiad timau i werthuso pa mor dda y mae ei ddiben yn cael ei gyflawni
22. dathlu llwyddiannau timau ac unigolion gyda'i gilydd
23. nodi gwrthdaro, cydnabod teimladau a safbwyntiau pawb o dan sylw, ac ailgyfeirio egni tuag at nod cyffredin
24. diddymu timau unwaith y bydd eu diben wedi'i gyflawni ac nad oes eu hangen mwyach
25. dilyn codau cyfreithiol, sefydliadol, codau ymarfer a pholisïau sy'n berthnasol i adeiladu timau a dyrannu gwaith

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol

1. pwysigrwydd cadarnhau ac egluro'r gwaith sy'n ofynnol gan dimau gyda'ch rheolwr a sut i wneud hyn
2. sut i nodi cwmpas y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ofynnol i gyflawni diben timau
3. pwysigrwydd dewis aelodau'r tîm sydd â'r wybodaeth, y sgiliau, y cymhwysedd a'r personoliaethau gwahanol fel y gallant chwarae rolau ategol mewn timau, a sut i wneud hynny
4. yr olyniaeth a'r cynllun ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau
5. pwysigrwydd cytuno ag aelodau'r tîm ar yr ymddygiadau sy'n debygol o helpu i gyflawni diben y tîm a'r rhai sy'n debygol o rwystro cynnydd ac y dylid eu hosgoi
6. sut i helpu aelodau'r tîm i ddeall eu cyfraniad unigryw at ddiben y tîm
7. y cyfraniadau a ddisgwylir gan aelodau'r tîm a sut mae'r rhain yn ategu ac yn cefnogi ei gilydd
8. pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i aelodau'r tîm ddod i adnabod cryfderau a gwendidau ei gilydd i adeiladu parch ac ymddiriedaeth ar y cyd
9. pwysigrwydd annog cyfathrebu agored rhwng aelodau'r tîm, a sut mae hyn yn cefnogi cydweithredu
10. sut i roi adborth i aelodau'r tîm i wella perfformiad cyd-aelodau'r tîm a'r tîm cyfan
11. pwysigrwydd rhoi amser i dimau ddatblygu trwy eu camau twf, a sut i wneud hynny
12. pwysigrwydd dathlu llwyddiannau timau ac unigolion gyda'i gilydd a chydymdeimlo gyda'i gilydd pan aiff pethau o chwith
13. y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu ag aelodau timau ac ailffocysu'r egni ar gyflawni ei ddiben
14. sut i gynllunio gwaith timau, gan gynnwys sut i nodi unrhyw flaenoriaethau neu weithgareddau hanfodol a'r adnoddau sydd ar gael
15. pam mae'n bwysig dyrannu gwaith ar draws timau a sut i wneud hynny
16. pam mae'n bwysig briffio aelodau'r tîm ar y gwaith a ddyrannwyd iddynt a'r safon neu lefel y perfformiad disgwyliedig, a sut i wneud hynny

17. y ffyrdd o annog aelodau'r tîm i ofyn cwestiynau, gofyn am eglurhad a gwneud awgrymiadau ynghylch y gwaith a ddyrannwyd iddynt

18. y pryderon sydd gan aelodau'r tîm am eu gwaith a sut i fynd i'r afael â'r pryderon hyn

Gwybodaeth a dealltwriaeth benodol o'r diwydiant a'r sector

19. dilyn codau ymarfer a pholisïau cyfreithiol a sefydliadol y diwydiant a'r sector sy'n berthnasol i'ch rôl a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal

20. gofynion y diwydiant a'r sector ar gyfer datblygu neu gynnal gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd.

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n ymwneud â chyd-destun penodol

21. diben ac amcanion eich timau, y cynlluniau ar gyfer ymgymryd â'r gwaith gofynnol a'r adnoddau sydd eu hangen

22. y cymysgedd gofynnol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau i gyflawni diben timau

23. y gwaith sy'n ofynnol gan eich timau a safonau neu lefelau perfformiad disgwyliedig eich sefydliad

24. cefndiroedd a phrofiad aelodau'r tîm, eu gwybodaeth, eu sgiliau, eu cymhwysedd a'u llwythi gwaith

25. y cyfleoedd i ddatblygu aelodau'r tîm a pholisi a gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol

26. y llinellau adrodd yn eich sefydliad a therfynau eich awdurdod

Sgiliau

1. Gweithredu'n bendant
2. Cyfathrebu
3. Gwneud penderfyniadau
4. Grymuso
5. Gwerthuso
6. Cynnwys eraill
7. Arwain
8. Monitro
9. Cael adborth
10. Cynllunio
11. Cyflwyno gwybodaeth
12. Datrys problemau
13. Rhoi adborth
14. Adolygu
15. Gosod amcanion
16. Adeiladu Tîm
17. Gwerthfawrogi eraill a'u cefnogi
18. Cyfathrebu
19. Gwneud penderfyniadau
20. Dirprwyo
21. Grymuso
22. Rheoli gwybodaeth
23. Arwain trwy esiampl
24. Monitro
25. Cynllunio
26. Cyflwyno gwybodaeth
27. Blaenoriaethu
28. Datrys problemau
29. Adrodd
30. Gosod amcanion
31. Adeiladu Tîm
32. Rheoli amser
33. Gwerthfawrogi aelodau staff a'u cefnogi

Adeiladu timau a dyrannu gwaith i aelodau'r tîm

Datblygwyd gan	Instructus
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Chwefror 2021
Indicative Review Date	Mawrth 2026
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Instructus
RCU gwreiddiol	CFAM&LDB1, CFAM&LDB2
Galwedigaethau perthnasol	Rheolwyr ac Uwch Swyddogion
Cyfres/Set	Rheoli ac Arwain
Geiriau Allweddol	Rheoli ac arwain; adeiladu; timau